# COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD IAU 24 MEDI 2020

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir S Baynham (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, R G Thomas, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D Jones-Poston a T J Van-Rees, oedd ag ymrwymiadau busnes eraill yn ymwneud â'r Cyngor.

| 2. | **COFNODION** |
|---|---|

Sylwyd ar gamgymeriad yn y cofnod pleidleisio ar y rhybudd o gynnig ar barcio, gyda'r Cynghorydd Roger Williams wedi'i gofnodi i fod wedi pleidleisio o blaid ac yn erbyn. Cadarnhawyd ei fod wedi pleidleisio o blaid y cynnig.

Tynnwyd sylw y dylai'r nodyn yn egluro'r camgymeriad yn y cofnod pleidleisio ar y rhybudd o gynnig ar yr argyfwng hinsawdd fod wedi'i ragflaenu â PS ac nid NB.

Yn amodol ar y cywiriadau hyn, awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

| 3. | **DATGAN BUDD** |
|---|---|

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr aelodau os oedd ganddynt hwy'n bersonol, neu deulu neu ffrindiau agos, eiddo ym Mhowys y gellid ei ystyried i fod naill ai'n (a) ail gartref neu'n (b) cartref gwyliau neu'n (c) tŷ gwyliau gosod neu (d) yn gyfuniad o dŷ gwyliau gosod a chartref gwyliau, y dylent ddatgan budd personol, rhagfarnus ac ariannol.

| 4. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ar 26 Tachwedd. Dywedodd hefyd fod y tîm TGCh yn dal i edrych ar opsiynau ar gyfer gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd.

| 5. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Nododd y Prif Weithredwr y datganiad a wnaed i'r Senedd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gan gydnabod y cynnydd a wnaeth y Cyngor ers sefydlu'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd yn 2018. Roedd y Gweinidog yn ffyddiog y gallai'r Cyngor reoli ei welliannau'n effeithiol gan gytuno felly i symud o Fwrdd Gwella a Sicrwydd statudol i drefniadau lleol ar gyfer goruchwylio a gyrru gwelliannau. Dywedodd wrth y Cyngor y byddai Arolygiaeth Gofal Cymru'n gwneud arolygiad ym mis Hydref ac y byddai Estyn yn arolygu ym mis Tachwedd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer yr achosion o Covid-19 ym Mhowys ar hyn o bryd yn gymharol isel a sefydlog. Roedd y tîm Profi, Olrhain a Gwarchod wedi bod yn eithriadol brysur ac wedi cael 100% llwyddiant yn olrhain pobl a brofodd yn bositif ym mis Medi, a 99% llwyddiant yn olrhain eu cysylltiadau. Roedd y tîm ar hyn o bryd yn cynorthwyo Rhondda Cynon Taf.

Dywedodd fod y rhestr o weithgareddau pwysig i fusnes yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau y gellid cynyddu neu arafu gweithgareddau yn ôl y sefyllfa.

Yn olaf diolchodd i Ness Young, a fyddai'n gadael y Cyngor ym mis Tachwedd, am ei chyfraniad a dywedodd y byddai'n adolygu'r uwch-dîm rheoli yn yr hydref.

| 6. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

Eglurodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gan y Pennaeth Comisiynu oherwydd bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar wyliau haeddiannol iawn ar ôl arwain y gwasanaeth drwy'r pandemig.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Pennaeth Comisiynu sylw at siwrne welliannau'r gwasanaeth gan gydnabod y cymorth a gafwyd gan Jack Straw, Phil Hodgson a'r Bwrdd Gwella. Diolchodd i gydweithwyr yn y gwasanaeth, aelodau etholedig a chydweithwyr yn y gwasanaethau corfforaethol am eu cymorth gan dalu teyrnged arbennig i staff rheng flaen a gwirfoddolwyr a fu'n gweithio mor galed i gynnal y gwasanaethau drwy'r pandemig.

Talodd Daliwr y Portffolio Gofal Cymdeithasol Oedolion a Daliwr y Portffolio Pobl Ifanc a Diwylliant deyrnged i'r Cyfarwyddwr am ei harweinyddiaeth a'r rôl flaenllaw a chwaraeodd yng Nghymru dros gyfnod y pandemig. Cafodd rôl y Pwyllgor Craffu'n cyflwyno her ar y siwrne welliannau hefyd ei gydnabod, felly hefyd bwysigrwydd cael tîm arweinyddiaeth llawn yn ei le.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Rachel Powell ac o 65 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.**

| 7. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff a fu'n helpu preswylwyr i ddelio â llifogydd yn Ystradgynlais a Bugeildy ym mis Awst. Dywedodd iddi gael cyfarfodydd â Gweinidogion gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol Jeremy Miles ar drosglwyddo allan o'r UE ac adferiad yr economi. Roedd yn gobeithio y byddai cyhoeddiad yn y dyfodol agos ar y Gronfa Cadernid Economaidd a fyddai'n rhyddhau mwy o arian. Fel rhan o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, roedd wedi cwrdd â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, i drafod ffermio cynaliadwy a chyllid ar gyfer y rhaglen datblygu gwledig.

| 8. | DIWYGIAD I GYLCH GORCHWYL BWRDD PENSIYNAU LLEOL POWYS |
|---|---|

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried cymeradwyo newidiadau i gylch gorchwyl Bwrdd Pensiynau Powys er mwyn cyflwyno ychydig yn fwy o hyblygrwydd o ran cadw a phenodi aelodau i'r Bwrdd drwy:

a) Cynyddu nifer cynrychiolwyr aelodau a chyflogwyr aelodaeth y cynllun o ddau i dri.
b) Cyflwyno ychydig o hyblygrwydd er mwyn gwasgaru dyddiadau dechrau a darfod aelodaeth y Bwrdd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Peter Lewis ac o 64 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Bwrdd Pensiynau Lleol a ddisgrifir yn yr Atodiad i'r adroddiad, a'i weithredu'n syth.**

Dywedodd y Cynghorydd Sir Huw Williams nad oedd wedi pleidleisio oherwydd iddo ymuno â'r cyfarfod ar ganol y drafodaeth.

| 9. | RHYBUDD O GYNNIG – DATGAN ARGYFWNG HINSAWDD A GALWAD I WEITHREDU AR YNNI LLEOL |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn trafod cynnig yn cyfuno'r cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton, a'r cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Ymuno â chynghorau eraill ar draws Cymru mewn datgan Argyfwng Hinsawdd.

2. Y bydd y cyngor hwn yn ceisio lleihau ei allyriadau carbon i sero yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ac adnoddau digonol i gyrraedd y targed hwn i gynorthwyo

gyda gweithredu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) er mwyn gwneud Cyngor Sir Powys yn awdurdod lleol cwbl ddi-garbon erbyn 2030.

3. Gofyn i Ddaliwr y Portffolio Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio arwain ar fesurau i liniaru'r Newid Hinsawdd a pharhau i ymgysylltu'n weithredol â'r holl aelodau a rhanddeiliaid drwy:

A. Gweithio gyda'r gweithgor trawsbleidiol a sefydlwyd, a

B. Sefydlu grŵp aml-randdeiliaid traws-Bowys i ddatblygu darlun sylfaenol @2020 a dod â strategaeth a chynllun gweithredu @2021 ymlaen er mwyn creu Powys wirioneddol gynaliadwy.

4. Y bydd y cyngor hwn, gyda chymorth y daliwr portffolio priodol, y swyddog newid hinsawdd newydd, a'r gweithgor newid hinsawdd, yn adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma i ddatblygu strategaeth weithio a chynlluniau gweithredu cysylltiedig i gyrraedd y targed hwn.

5. Y bydd y cyngor hwn yn adolygu'r holl bolisïau, strategaethau a chynlluniau perthnasol, gan gynnwys ei gynllun corfforaethol a'r cynllun datblygu lleol, i gynorthwyo i gyrraedd y targedau uchod.

6. Y bydd y cyngor hwn yn hyrwyddo a chyhoeddi'r arferion gorau o ran lleihau cnesu byd-eang gan annog preswylwyr a busnesau i gymryd eu camau addas eu hunain a hefyd i leihau eu hallyriadau carbon yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.

7. Y bydd y cyngor hwn, ynghyd â chymorth ac adnoddau priodol gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'i bartneriaid, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i helpu i ddatblygu a gweithredu arferion gorau, rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad argyfwng hinsawdd hwn, cyfyngu ar gnesu byd-eang, lleihau allyriadau carbon yn effeithiol a symud tuag at economi werdd i Bowys.

8. Cefnogi ein haelodau seneddol i sicrhau bod y Mesur Trydan Lleol yn llwyddo mewn Trafodaeth Ohirio i annog a hwyluso cyflenwi trydan lleol ynghyd â chymunedau mwy gwydn ym Mhowys.

Cyd-gynigiwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jake Berriman a'r Cynghorydd Iain McIntosh a'i gyd-eilio gan y Cynghorydd Jackie Charlton a'r Cynghorydd Lucy Roberts. Roedd y cynigwyr a'r eilwyr wedi croesawu'r dull cadarnhaol a ddefnyddiwyd i ganfod ffordd ymlaen gyda'n gilydd.

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sarah Williams:

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Ymuno â chynghorau eraill ar draws Cymru mewn datgan **a chydnabod yr** Argyfwng Hinsawdd.

2. Y bydd yn ceisio lleihau ei allyriadau carbon i sero yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru **a Llywodraeth y DU** i ddarparu cymorth ac adnoddau digonol i gyrraedd y targed

hwn i gynorthwyo gyda gweithredu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) er mwyn gwneud Cyngor Sir Powys yn awdurdod lleol cwbl ddi-garbon erbyn 2030.

3. Gofyn i Ddaliwr y Portffolio Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio arwain ar fesurau i liniaru'r Newid Hinsawdd a pharhau i ymgysylltu'n weithredol â'r holl aelodau a rhanddeiliaid drwy:

A. Gweithio gyda'r gweithgor trawsbleidiol a sefydlwyd, a

B. Sefydlu grŵp aml-randdeiliaid traws-Bowys i ddatblygu darlun sylfaenol @2020 a dod â strategaeth a chynllun gweithredu @2021 ymlaen er mwyn creu Powys wirioneddol gynaliadwy.

4. Y bydd, gyda chymorth y daliwr portffolio priodol, y swyddog newid hinsawdd newydd, a'r gweithgor newid hinsawdd, yn adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma i ddatblygu strategaeth weithio a chynlluniau gweithredu cysylltiedig i gyrraedd y targed hwn.

5. Y bydd yn adolygu'r holl bolisïau, strategaethau a chynlluniau perthnasol, gan gynnwys ei gynllun corfforaethol a'r cynllun datblygu lleol, i gynorthwyo i gyrraedd y targedau uchod.

6. Y bydd yn hyrwyddo a chyhoeddi'r arferion gorau o ran lleihau cnesu byd-eang gan annog preswylwyr a busnesau i gymryd eu camau addas eu hunain a hefyd i leihau eu hallyriadau carbon yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.

7. Y bydd, ynghyd â chymorth ac adnoddau priodol gan Lywodraeth Cymru **a Llywodraeth y DU**, yn gweithio gyda'i bartneriaid, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i helpu i ddatblygu a gweithredu arferion gorau, rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad argyfwng hinsawdd hwn, cyfyngu ar gnesu byd-eang, lleihau allyriadau carbon yn effeithiol a symud tuag at economi werdd i Bowys.

8. Cefnogi ein haelodau seneddol i sicrhau bod y Mesur Trydan Lleol yn llwyddo mewn Trafodaeth Ohirio i annog a hwyluso cyflenwi trydan lleol ynghyd â chymunedau mwy gwydn ym Mhowys.

Dywedodd gynigydd ac eilydd y diwygiad fod cynnwys Llywodraeth y DU yn y geiriad yn rhoi'r cyfle mwyaf posib i'r cyngor gael cyflwyno sylwadau. Pasiodd y diwygiad o 40 pleidlais i 21 gyda 4 yn ymatal.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y prif gynnig ac o 61 pleidlais i 1 gyda 3 yn ymatal

**PENDERFYNWYD:**

1. **Ymuno â chynghorau eraill ar draws Cymru mewn datgan a chydnabod yr Argyfwng Hinsawdd.**
2. **Y bydd y cyngor hwn yn ceisio lleihau ei allyriadau carbon i sero yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ac adnoddau digonol i gyrraedd y targed hwn i gynorthwyo gyda gweithredu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon**

**Isel (Mawrth 2019) er mwyn gwneud Cyngor Sir Powys yn awdurdod lleol cwbl ddi-garbon erbyn 2030.**

**3. Gofyn i Ddaliwr y Portffolio Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio arwain ar fesurau i liniaru'r Newid Hinsawdd a pharhau i ymgysylltu'n weithredol â'r holl aelodau a rhanddeiliaid drwy:**

**A. gweithio gyda'r gweithgor trawsbleidiol a sefydlwyd, a**

**B. sefydlu grŵp aml-randdeiliaid traws-Bowys i ddatblygu darlun sylfaenol @2020 a dod â strategaeth a chynllun gweithredu @2021 ymlaen er mwyn creu Powys wirioneddol gynaliadwy.**

**4. Y bydd y cyngor hwn, gyda chymorth y daliwr portffolio priodol, y swyddog newid hinsawdd newydd, a'r gweithgor newid hinsawdd, yn adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma i ddatblygu strategaeth weithio a chynlluniau gweithredu cysylltiedig i gyrraedd y targed hwn.**

**5. Y bydd y cyngor hwn yn adolygu'r holl bolisïau, strategaethau a chynlluniau perthnasol, gan gynnwys ei gynllun corfforaethol a'r cynllun datblygu lleol, i gynorthwyo i gyrraedd y targedau uchod.**

**6. Y bydd y cyngor hwn yn hyrwyddo a chyhoeddi'r arferion gorau o ran lleihau cnesu byd-eang gan annog preswylwyr a busnesau i gymryd eu camau addas eu hunain a hefyd i leihau eu hallyriadau carbon yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.**

**7. Y bydd y cyngor hwn, ynghyd â chymorth ac adnoddau priodol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn gweithio gyda'i bartneriaid, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i helpu i ddatblygu a gweithredu arferion gorau, rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad argyfwng hinsawdd hwn, cyfyngu ar gnesu byd-eang, lleihau allyriadau carbon yn effeithiol a symud tuag at economi werdd i Bowys.**

**8. Cefnogi ein haelodau seneddol i sicrhau bod y Mesur Trydan Lleol yn llwyddo mewn Trafodaeth Ohirio i annog a hwyluso cyflenwi trydan lleol ynghyd â chymunedau mwy gwydn ym Mhowys.**

| **10.** | **RHYBUDD O GYNNIG – ALLYRIADAU CARBON** |
|---|---|

Tynnwyd y cynnig hwn yn ôl yn sgîl y cyd-gynnig a basiwyd yn gynharach.

| **11.** | **RHYBUDD O GYNNIG – CARTREFI GWYLIAU** |
|---|---|

Roedd y Cynghorwyr Sir David Evans, James Evans, James Gibson-Watt, Rosemarie Harris, E Michael Jones, Gareth Jones, Karen Laurie-Parry, Gareth Morgan, Rachel Powell, David Price, Martin Weale a Gwilym Williams wedi datgan buddiannau personol, ariannol a rhagfarnus yn yr eitem hon ac wedi gadael y cyfarfod cyn trafod yr eitem.

Bu'r Cyngor yn ystyried y rhybudd o gynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

Mae gan Bowys tua 1262 o ail gartrefi / cartrefi gwyliau ar restr Treth y Cyngor sy'n talu premiwm o 50% a hyn yn cynhyrchu tua 700k.

O ystyried y pryder cymdeithasol aruthrol am effaith gymaint o dai fel hyn mewn nifer o gymunedau, mae'r Cyngor yn galw:

- am godi'r premiwm presennol i 75% yn y flwyddyn ariannol nesaf gan felly gynhyrchu tua 350k yn fwy o arian i'r awdurdod
- a bod yr awdurdod yn gweithio ag awdurdodau gwledig eraill, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Brisio'n gyson wrth asesu ceisiadau Ardrethi Busnes ar gyfer tai o'r fath o ran bod yn rhaid eu gosod am 140 diwrnod er mwyn bod yn fusnesau diffuant.

Wrth wneud y cynnig, eglurodd y Cynghorydd Vaughan ei fod yn galw ar y Cyngor i anfon neges glir ei fod yn sefyll ochr yn ochr â phobl ifanc na allent fforddio â byw yn eu cymunedau eu hunain.

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Sir Sarah Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance y dylid codi'r premiwm i 100%. Collodd y diwygiad o 21 pleidlais i 30 gyda 1 yn ymatal.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig ac o 33 pleidlais i 17 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD galw**

- **am godi'r premiwm presennol i 75% yn y flwyddyn ariannol nesaf gan felly gynhyrchu tua 350k yn fwy o arian i'r awdurdod**
- **a bod yr awdurdod yn gweithio ag awdurdodau gwledig eraill, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Brisio'n gyson wrth asesu ceisiadau Ardrethi Busnes ar gyfer tai o'r fath o ran bod yn rhaid eu gosod am 140 diwrnod er mwyn bod yn fusnesau diffuant.**

Daeth yr aelodau a oedd wedi datgan budd yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

| 12. | RHYBUDD O GYNNIG – TERFYNAU CYFLYMDER MEWN TREFI BACH |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Stephen Hayes ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton:

Cafodd bwerau ar derfynau cyflymder cenedlaethol eu datganoli i Gymru yn 2018.

Yn 2019 meddai Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford: ‘Rhaid i awdurdodau lleol gael disgresiwn i gadw parthau 30mya ar hyd priffyrdd ‘prifwythiennol’, ond ar wahân i hynny, ac mewn ardaloedd preswyl, gwyddom fod parthau 20mya yn lleihau cyflymder traffig a damweiniau – yn enwedig damweiniau i blant, ac rydyn ni eisiau gweld hyn mewn grym ar draws Cymru’. Dywedodd yr AC Llafur John Griffiths fod cefnogaeth ar draws y pleidiau i bolisi y teimlai oedd yn rhoi manteision lu i gymdeithas. Bydd pobl hŷn yn teimlo’n hapusach yn cerdded ar hyd y strydoedd gyda therfynau 20mya yn eu lle a bydd rhieni’n teimlo’n llawer hapusach yn gadael i’w plant chwarae y tu allan.’

Ar 15 Gorffennaf eleni, pleidleisiodd y Senedd i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar gyfer strydoedd preswyl, yn amodol ar ymgynghori a phenderfynu’n derfynol, gyda dyddiad gweithredu targed o 2023.
Mae’r canllawiau presennol ar derfynau cyflymder i’w cael yng Nghylchlythyr Rhif 24/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru **Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru**, dyddiedig Hydref 2009. Ymhlith pethau eraill, mae’n datgan:

- Y nod sylfaenol ddylai cyflawni dosbarthiad ‘diogel’ o gyflymderau sy’n adlewyrchu pwrpas y ffordd a’r effaith ar y gymuned leol. Bod angen ystyried anghenion cymunedau a phobl fregus sy’n defnyddio’r ffyrdd yn llawn.
- Y dylid ystyried nodweddion y ffordd ac anghenion pobl fregus sy’n ei defnyddio wrth benderfynu ar derfyn cyflymder.
- Bod angen ystyried pobl fregus sy’n defnyddio ffyrdd yn llawn er mwyn eu hannog i symud mwy o gwmpas y lle a gwella eu diogelwch. Mae gosod terfynau cyflymder priodol yn arbennig o bwysig fel rhan o reoli diogelwch mewn trefi, gyda manteision sylweddol i gerddwyr a beicwyr.

Cynnig:
Mae’r Cyngor yn croesawu pleidlais ddiweddar y Senedd i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl o 2023 ymlaen. A chydnabod bod gan Bowys nifer o drefi bach o ddiddordeb hanesyddol eithriadol lle mae cyflymder y traffig yn effeithio’n andwyol ar ddiogelwch a mwynhad preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd, mae’r Cyngor yn cytuno:

1. I weithio’n gydweithredol â chymunedau sy’n dymuno asesu manteision posib, a lle bo’n briodol cyflwyno, terfyn cyflymder o 20mya yng nghanol eu trefi
2. I fanteisio’n llawn ar y cyfleoedd a gyflwynir yng Nghylchlythyr 24/2009 i wella diogelwch pobl fregus sy’n defnyddio’r ffyrdd ac ystyried effaith terfynau cyflymder traffig ar gymunedau
3. I roi a thalu sylw priodol i anghenion defnyddwyr ffyrdd heblaw pobl mewn cerbydau modur (er enghraifft, pobl ar droed, ar gefn ceffyl a chefn beic) a rhai gyda nam ar eu symudedd neu nam ar eu synhwyrau, wrth ddylunio a gweithredu gorchmynion traffig newydd.

O 59 pleidlais i 1

**PENDERFYNWYD croesawu pleidlais ddiweddar y Senedd i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl o 2023 ymlaen. A chydnabod bod gan Bowys nifer o drefi bach o ddiddordeb hanesyddol eithriadol lle mae**

**cyflymder y traffig yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch a mwynhad preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd, mae'r Cyngor yn cytuno:**

1. **I weithio'n gydweithredol â chymunedau sy'n dymuno asesu manteision posib, a lle bo'n briodol cyflwyno, terfyn cyflymder o 20mya yng nghanol eu trefi**
2. **I fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gyflwynir yng Nghylchlythyr 24/2009 i wella diogelwch pobl fregus sy'n defnyddio'r ffyrdd ac ystyried effaith terfynau cyflymder traffig ar gymunedau**
3. **I roi a thalu sylw priodol i anghenion defnyddwyr ffyrdd heblaw pobl mewn cerbydau modur (er enghraifft, pobl ar droed, ar gefn ceffyl a chefn beic) a rhai gyda nam ar eu symudedd neu nam ar eu synhwyrau, wrth ddylunio a gweithredu gorchmynion traffig newydd.**

| 13. | CWESTIYNAU'N UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

13.1. **Cwestiwn i Ddaliwr y Portffolio Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

**Mae'r mwyafrif llethol o fusnesau yn y Gelli Gandryll yn gadarnhaol am yr effaith a gafodd dwy awr o barcio am ddim ar eu masnach ym mis Awst, gyda rhai busnesau'n priodoli cynnydd o rhwng 20-30% o'i gymharu â'r llynedd i'r ffaith bod ymwelwyr a phreswylwyr nawr yn gallu parcio am hirach ac am ddim. Mae wedi bod yn fenter hynod lwyddiannus – diolch yn fawr iawn i chi am wneud hyn. O gofio hyn a llawer o fusnesau hefyd yn dweud bod angen pob cymorth posib arnynt wrth wynebu misoedd llai prysur y gaeaf, a yw'r cyngor wedi asesu effaith parcio am ddim i fusnesau ym Mhowys a sut y mae'r cyngor yn bwriadu cefnogi busnesau drwy'r gaeaf. Hefyd o ystyried yr adborth a gafwyd, a fyddai Cyngor Sir Powys yn fodlon ymestyn hyn drwy'r gaeaf o leiaf, i roi'r cymorth gorau posib i fusnesau? Gallai fod yn fater o lwyddo neu fethu i rai busnesau yn y dref ac mae cymorth yn hanfodol i osgoi gweld trefi a strydoedd yn y Canolbarth heb adyn byw yn eu cerdded erbyn dechrau 2021.**

**Ymateb**

Gwnaed y penderfyniad i ganiatáu parcio am ddim dros wyliau'r haf ar adeg gwbl ddigyffelyb i adlewyrchu ein hymrwymiad i'r ymgyrch #prynulleolpowys, ac er mwyn hybu ail-agor y stryd fawr a chefnogi ein busnesau lleol. Mae'n dda iawn clywed bod hyn wedi'i groesawu'n fawr ac wedi helpu i roi hwb i'r busnesau yn y Gelli Gandryll.

Heb unrhyw fan cychwyn cadarn i fesur yn ei erbyn mewn cyfnod mor eithriadol, a dim gwybodaeth am y defnydd am ddim o'r lle parcio, yn anffodus nid oes asesiad ffurfiol na ffordd o fesur yr effaith ar faint o geir a barciodd na faint o 'dwrw traed' a fu'n gysylltiedig â'r parcio am ddim, gan gyfyngu unrhyw asesiad i farn oddrychol ac anecdotaidd.

Byddwch yn cofio bod caniatáu parcio am ddim ym mis Awst wedi achosi pwysau ychwanegol o £85,000 ar y gyllideb ac y cytunwyd i ariannu hyn yn gorfforaethol allan o gronfeydd wrth gefn. Cafodd y cynnig o blaid ymestyn y parcio am ddim ei gyflwyno yng nghyfarfod y cyngor llawn ar 30 Gorffennaf lle

penderfynwyd yn erbyn ei ymestyn gyda 23 pleidlais dros y cynnig i ymestyn y parcio am ddim am 6 mis arall, o'i gymharu â 30 yn erbyn a 3 yn ymatal.

O ystyried hyn nid oes cyfarwyddyd clir i ystyried y mater hwn ymhellach.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ychwanegol.

13.2. **Cwestiwn i Ddaliwr y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh**

**Pwy a pha adran sy'n gyfrifol am fethu â darparu masgiau wyneb i'n pobl ifanc sy'n teithio ar drafnidiaeth ym Mhowys i'w cludo i ac o'r ysgol oherwydd roedd sawl diwrnod wedi pasio cyn iddynt gyrraedd yr ysgolion?**

**Ymateb**

Ar brynhawn dydd Mercher 26 Awst fe wnaeth Llywodraeth Cymru argymell bod plant dros 11 oed yn gwisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth i ac o'r ysgol. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n darparu dau orchudd wyneb amlddefnydd i bob disgybl yn unol ag argymhelliad Llywodraeth Cymru. Nid oedd yr argymhelliad wedi rhoi fawr ddim amser i'r Cyngor ymateb a gallu dod o hyd i, trefnu i dderbyn a dosbarthu'r cynhyrchion oedd eu hangen.
Daeth y gwasanaethau masnachol o hyd i 7,000 gorchudd wyneb cyn gwneud y gwiriadau angenrheidiol ar eu hardystiad a'u hachrediad, gan gynnwys cyswllt â'r gwasanaethau Iechyd a Diogelwch i gadarnhau eu bod yn addas. Cytunodd y cyflenwr i ddosbarthu 3,500 gorchudd wyneb ar ddydd Mawrth 1 Medi (yn dilyn dydd Llun Gŵyl y Banc) gyda 3,500 arall i'w dosbarthu ar ddydd Llun 7 Medi.
Methodd y cyflenwr â dosbarthu ar amser ond fe wnaeth ddosbarthu 4,000 o fasgiau untro fel arwydd o ewyllys da.
Dosbarthwyd 1,500 o fasgiau amlddefnydd ar 3 Medi. Roedd gorchuddion wyneb ar gael i ddisgyblion ar ddydd Gwener 4 Medi, un diwrnod ar ôl dychwelyd yn rhannol i'r ysgol.
Oherwydd methiant yr archeb wreiddiol i ddosbarthu ar y dyddiadau a gytunwyd, penderfynodd y Cyngor ymateb yn gyflym a daeth o hyd i fasgiau gan gyflenwr arall, gyda 4,100 yn cyrraedd ar ddydd Gwener 4 Medi a'r gweddill yn yr wythnos yn dechrau ar 7 Medi.
Mae pob ysgol uwchradd bellach wedi derbyn dau orchudd wyneb i bob dysgwr a gludir i'r ysgol ar un o fysus y cyngor.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ychwanegol.

13.3. **Cwestiwn i Ddaliwr y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry**

**Ydw i'n gywir yn deall bod Cyngor Sir Powys yn berchen ar ddeg o goetsys a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, ac a ddefnyddir gan gwmnïau coetsys?**
**Ar ôl teithio'n ddiweddar ar Goets dan gontract a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, mewn Awdurdod arall, sylwais fod y cwmni coetsys ei hun yn hysbysebu ei fanylion llawn y tu allan a'r tu mewn i goets trafnidiaeth gyhoeddus yr Awdurdod hwnnw, ynghyd â hysbysebion eraill.**
**Fel fy nghyd-Gynghorwyr Sir sydd hefyd, mae'n siŵr, yn ceisio canfod ffyrdd o greu incwm tuag at gynyddu refeniw, a oes gennym bolisi o godi**

**tâl am hysbysebu ar y coetsys y mae'r Cyngor yn berchen arnynt? Os nag oes, a ellid efallai ystyried hynny?**

**Ymateb**

Mae'r Cyngor yn berchen ar 20 o fysus gwasanaeth a dderbyniodd arian grant gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio ar lwybrau bysus TrawsCymru drwy'r Sir. Mae'r cerbydau wedi eu gorchuddio â lifrai TrawsCymru a warchodir gan Lywodraeth Cymru ac ni chaniateir hysbysebion ar y tu allan na'r tu mewn i'r cerbydau.

I ateb cwestiwn ychwanegol y Cynghorydd Laurie-Parry, dywedodd Daliwr y Portffolio fod y bysus yn cael eu cofnodi fel asedau ar Fantolen y Cyngor (Cofrestr Asedau) yn ôl eu pris prynu, ac yn cael eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ac wedi eu dyrannu i'r llwybrau teithio canlynol:

6 x bws T4 (Y Drenewydd – Aberhonddu ac ymlaen i Gaerdydd
6 x bws T14 (Henffordd – Aberhonddu ac ymlaen i Gaerdydd)
2 x bws X43 (Aberhonddu – Y Fenni)
3 x bws T12 (Wrecsam – Y Drenewydd – Machynlleth)
3 x bws X75 (Llanidloes – Y Drenewydd – Amwythig).

**Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)**

| **14.** | |
|---|---|

| **15.** | |
|---|---|

1.1.

1.2.